**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Fehefin, 2023.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Presennol:** | John Jones (Cadeirydd), Enid Egginton, Clifford Williams, Michael Jones (Garndolbenmaen), Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa), Richard Williams (Prenteg), Huw Pritchard, Sarah Jones, Raymond Jones (Pentrefelin), June Jones (Cynghorydd Sir Cyngor Gwynedd) |
| 2. | **Ymddiheuriadau:** | Gwilym Evans (Prenteg), Edward Evans (Bryncir), Stephen Churchman (Cynghorydd Sir Cyngor Gwynedd) |
| 3. | **Ddim yn bresennol:** | Iddon Edwards (Penmorfa) |
| 4. | **Datgan Buddiant:** | Raymond Jones – Eitem 13 - biliau i'w dalu<br>Sarah Jones – Eitem 12 - cynllunio |
| 5. | **Cywirdeb y cyn-gofnodion** | Michael Jones yn cynnig a Richard Parry yn eilio |
| 6. | **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion** | Bwrdd Gwybodaeth Pentrefelin: Adroddwyd fod y dyluniad wedi ei brawf ddarllen a bellach wedi ei anfon at yr argraffydd. Diolchwyd i Mrs Mair Parry am roi ei hamser i wneud y gwaith yma. Penderfynwyd rhoi rhodd o £100.00 a blodau iddi am gwblhau'r gwaith ar ein rhan. (Ni chymerodd Richard Parry ran yn y drafodaeth yma a bu iddo adael y neuadd).<br><br>Cyfarfod safle wedi bod gyda Chyngor Gwynedd i gael caniatâd i osod y bwrdd gwybodaeth.<br><br>Cais loteri wedi cael ei gyflwyno – diolchwyd i'r clerc am wneud y gwaith yma.<br><br>Arwydd ffordd ddim yn addas i loriau - Prenteg: Lleoliad wedi ei arolygu gan yr Adran Draffig a'r gobaith yw y bydd yr arwydd i fyny yn y mis nesaf.<br><br>Mynydd Glas, Garndolbenmaen: Dim cais cynllunio i'w weld ar wefan y Parc. Nodwyd bod llai o loriau i'w weld yn mynd a dod fyny'r ffordd.<br><br>Parcio Bwlch y Moch: Cafwyd ymateb gan y Parc yn cadarnhau eu bod yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a bod cynnydd wedi ei wneud yn y gwasanaeth bws S4 o Forfa Bychan at Feddgelert/Pen y Pass. Y brif neges yw parcio ym Mhorthmadog a dal bws i mewn i'r ardal. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bin baw cŵn, Cwmystradllyn: Cafwyd ymateb gan Dŵr Cymru yn dweud eu bod am osod arwyddion penodol ynglŷn â baw ci ar y safle a monitro'r sefyllfa dros yr haf, os na wnaiff wella yna fe wnânt edrych ar y mater eto.<br><br>Etholiad 2022: Derbyniwyd ymateb gan Reolwr y Comisiwn Etholiadol. Dywedwyd y byddent yn sicr yn siarad gyda'r Swyddog Canlyniadau a'i dîm am y materion godwyd fel rhan o'u cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd. Byddent yn edrych ar ffyrdd o'u cefnogi a'u monitro mewn etholiadau yn y dyfodol i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud.<br><br>R.W yn cynnig ein bod nawr yn gadael y mater tan ddaw Cyngor Gwynedd yn ôl atom. |
| 7. | **Mynwentydd:** | Toriadau cyntaf wedi eu gwneud. Dim anfoneb wedi ei dderbyn gan y contractwyr hyd yma. Clerc i gysylltu gyda'r contractwyr i'w hatgoffa o'r cytundeb ac bod angen clirio a chodi'r gwair ar eu holau.<br><br>Clerc i greu rhestr o'r rheolau i'w osod yn y fynwent i atgoffa ymwelwyr o'r rheolau parthed cadw'r beddi yn glîr.<br><br>Cadarnhaodd y clerc bod yr holl ymgymerwyr / torrwr beddi/cerrig wedi cael copi o'r rheolau claddu newydd. Soniwyd mai dim ond un ymgymerwr sydd wedi dod yn ôl yn cadarnhau eu derbyn. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny. |
| 8. | **Llwybrau Cyhoeddus:** | Llwybr rhif 5: Gwaith dal heb ei gwblhau.<br><br>Pont Faen: Yr hen arwydd wedi mynd ond heb fod yn ôl gydag arwydd newydd.<br><br>Cwmystradllyn: Camfa wedi torri ar y llwybr o'r Felin i'r Ysgol/Capel.<br><br>Clerc i gysylltu hefo'r Swyddog Llwybrau i adrodd am yr uchod.<br><br>Toriadau: Clerc i wirio cytundebau i weld faint o doriadau ac i sicrhau bod y llwybr o'r bont at y fynwent yn Eglwys Pennant yn cael ei dorri. |
| 9. | **Adroddiad Pentrefi:** | Bryncir: Adroddwyd fod y safle bws gwyrdd yn fudr ac angen ei lanhau. Clerc i gysylltu am bris gan Waterworks i lanhau 1x Bryncir, 1 x Golan, 3 x Pentrefelin<br><br>Pentrefelin: Hysbysfwrdd newydd yn ei le.<br><br>Golan: Gwaith Dŵr – gwrych angen ei dorri a'i dacluso a<br><br>Penmorfa: Dim i'w adrodd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Prenteg: Dim i'w adrodd<br><br>Garndolbenmaen: Llongyfarchwyd Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog ar ddod yn fuddugol ac am drefnu a gwesteïo Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri 2023 yn Llystyn Ganol, Garndolbenmaen ar y 27ain o Fai. Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch yn arbennig i Erin Roberts a phawb wnaeth gyfrannu a chynorthwyo i sicrhau rali llwyddiannus dros ben. Diolchwyd hefyd i drigolion Garndolbenmaen am eu rhan yn sicrhau llwyddiant y diwrnod ac am ddangos eu cefnogaeth. |
| **10.** | **Cyflog Clerc Llanw** | Penderfynwyd talu cyflog mis a rhoi cerdyn a blodau i ddiolch i Liz Watkin am gamu mewn i glercio ar fyr rybudd. Megan Lloyd Williams yn cynnig a John Till yn eilio. |
| **11.** | **Amod 106 a'r ceisiadau cynllunio:** | Soniwyd fod rhywun wedi rhoi cais cynllunio i mewn i adeiladu tŷ o'r newydd a bod amod 106 wedi ei roi arno sydd yn golygu os ydynt yn dymuno gwerthu yn y dyfodol, bod rhaid iddynt werthu'r tŷ am 44% yn llai na beth fyddai ei werth ar y farchnad agored.<br><br>Dywedwyd fod yna amryw o wahanol Amodau 106 ac y byddai'n werth trio cael rhywun i siarad ac egluro'r rhain i'r Cyngor Cymuned. Clerc i drefnu. |
| 12. | **Gohebiaeth** | **a.** Cyngor Gwynedd – Uned Draffig - Addurno ar gyfer yr Eisteddfod – addurno Pentrefelin yn unig. |
| | **Gohebiaeth Ychwanegol** | a. Andrew Basford - Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd - Adroddiad o'r Ymgynghoriad ym Mhorthmadog gychwyn y flwyddyn – Rhannwyd/<br>b. Polisi Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri – Gwahoddiad i Weminar ar yr 8fed o Fehefin i drafod Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol – John Jones a Sarah Jones yn mynychu.<br>c. Unllais Cymru – Cadwch y dyddiad – 5ed o Orffennaf – Cynhadledd Arfer Arloesol ar Faes y Sioe Amaethyddol – Rhannwyd.<br>ch. Grŵp Cyswllt Cleifion Hwb Eifionydd – Digwyddiad i ofalwyr Eifionydd. Rhannwyd.<br>d. Unllais Cymru – The Good Councillors Guide to Employment. Rhannwyd.<br>dd. Unllais Cymru – Arolwg Gefeillio. Rhannwyd.<br>e. Information Commissioners Office – adnewyddu ffi diogelu data. Rhannwyd.<br>f. Unllais Cymru – Rheolau Sefydlog 2023. Cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor Llawn i'w gynnal ar yr 20fed o Fedi, 2023.<br>ff. Unllais Cymru – Dyddiadau Hyfforddiant Mai a Mehefin 2023. Rhannwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | g. Catrin Huws – Cynllun Peilot Dwyfor – Diweddariad Mai 2023. Ymatebwyd yr holiadur. |
| | **Cynllunio** | Rhestrau – 1/5, 8/5, 15/5, 22/5 |
| | | <u>Ceisiadau Cynllunio</u> – **NP2/16/468** Beudy'r Garth, Cwmystradllyn – Gosod uned trin carthion preifat. Dim gwrthwynebiad. (Ni gymerodd Sarah Jones unrhyw ran yn y drafodaeth) |
| **13.** | **Materion Ariannol** | <u>Ceisiadau am arian</u>: Dim<br><br><u>Monitro'r Gyllideb:</u> Dim Gorwariant<br><br><u>Biliau i'w talu:</u><br>Cyflog Clerc £282.35<br>Ffôn £15.00<br>Cyfrifiadur £20.00<br>HMRC £70.40<br>HSBC £8.00<br>Veolia £2.16<br>Zurich £1,223.24<br>Neuadd Pentrefelin £20.00<br>Raymond Jones £250.00<br><br><u>Derbyniadau:</u><br><br>Pritchard & Griffiths £110.00<br><br><u>Balansau Cyfrifon Banc</u><br><br>Cyfredol: £20,890<br><br>Cadw: £16,909 |
| **14.** | **Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan** | • Baw Cŵn Cwmystradllyn<br>• Rheolau Fynwent<br>• Llongyfarch CFFI Dyffryn Madog<br>• Holiadur Tai Cynllun Peilot Dwyfor |